

PRIFFYRDD, CYMRU

2022 Rhif

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TŶ’N DŴR,
GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD)
2022**

Gwnaed *1 Awst 2022*

Yn dod i rym *3 Awst 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrrd (Tŷ'n Dŵr, Garndolbenmaen, Gwynedd) 2022 a daw i rym ar 3 Awst 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Gwynedd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrrd (Tŷ'n Dŵr, Garndolbenmaen, Gwynedd) 2022” gyda'r cyfeirnod qA1532150 sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

HIGHWAYS, WALES

2022 No

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (TY’N
DWR, GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD)
ORDER 2022**

Made *1 August 2022*

Coming into Force *3 August 2022*

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

Title and Commencement

1. The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd) Order 2022 and it comes into force on 3 August 2022.

Interpretation

2. In this Order—

“the Council” (“*y Cyngor*”) means Gwynedd Council;

“the deposited plan” (“*y plan a adneuwyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd) Order 2022” with reference qA1532150 which accompanies this Order;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

“the 1990 Act” (“*Deddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

(1) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Cau priffordd

3. Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2017 o dan y cyfeirnod C17/0431/36/LL, ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y darpariaethau sy'n angenrheidiol neu'n hwylus cyn cau priffordd

4. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn—

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, bliniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;
- (b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; a
- (c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwyrr statudol a darparwyr

5. Pan fo gan ymgwyrr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwyrr neu'r darparwr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Awst 2022



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Stopping Up

3. Subject to articles 4 and 5 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 19 June 2017 with reference number C17/0431/36/LL and described in Schedule 2 to this Order.

Provisions necessary or expedient before stopping up

4. The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

- (a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;
- (b) the development described in Schedule 2 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and
- (c) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a) and (b) are satisfied.

Statutory undertakers and providers

5. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

1 August 2022



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)
Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Tŷ'n Dŵr, Garndolbenmaen, Gwynedd, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 165 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuydyd.

ATODLEN 2
Y datblygiad

Dymchwel modurdai presennol, adeiladu dwy annedd 2 lawr fforddiadwy, creu lleoedd parcio a chyfleusterau cysylltiedig.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)
Length of highway to be stopped up

An irregular shaped length of highway known as Ty'n Dwr, Garndolbenmaen, Gwynedd having a total area of 165 square metres, shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2
The development

The demolition of existing garages, erection of two 2 storey affordable dwellings, creation of Parking spaces and associated facilities.

